# MARWNAD,

## YN GOFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR

## BARCHEDIG JOHN THOMAS,

## ABERTEIFI,

GWEINIDOG TEILWNG YN NGHYFUNDEB Y TREFNYDDION CALFINAIDD,

Yr hwn a orphenodd ei yrfa ddaearol Chwefror y 3ydd, 1849, yn 89ain Oed, wedi bod yn llafurio yn ffyddlon yn ngwaith y weinidogaeth am 55ain o flynyddau.


GAN DAVID WILLIAMS,

TREFIN.


"Oni wyddoch chwi i dywysog ac i wr mawr syrthio heddyw yn Israel?"

"Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau: mewn hedd ac uniondeb y rhodiodd gyd â mi, a llaweroedd a drodd efe oddiwrth anwiredd."

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt."


ABERTEIFI:

ARGRAFFWYD GAN ISAAC THOMAS, HEOL-FAIR.

1849.

# MARWNAD, &c.

1 O PA fodd yn awr y gallaf
  Fi wneyd gorchwyl o'r fath hwn,—
Sef i draethu 'rhyn fu'n achos
  Fod fy nghalon i dan bwn:
'Rhyn a'm gwnaeth i ddwys alaru
  Ydoedd colli enwog wr,
A fu'n gwylio muriau Seion,
  Ac yn sefyll ar ei thwr.

2 Enw'r gwyliwr oedd John Thomas,
  Aberteifi, dirion le,
Ymadawodd, do, oddiyma,
  Dianc wnaeth i deyrnas ne':
Y mae 'nawr yn canu'n hwylus
  I'w Dywysydd ffyddlon, cu,
Am ei arwain trwy'r anialwch
  I wlad Canaan ddedwydd, fry.

3 E drafaelodd yn ddiorphwys
  Tra bu gyda ni yn byw,
Ac ymdrechodd, er pob gelyn,
  Gadw deddfau glân ei Dduw:
Ond ni feiddiwyf ddweyd na meddwl
  Fod yr anwyl, hynod ddyn
Yn ddibechod,—yr oedd hwnw
  Wrth ei enaid ef yn nglŷn.

4 Ond mi feiddiaf ddweyd yn eglur,
Fod e'n Gristion enwog iawn ;
Dan ddylanwad pur yr Ysbryd,
Gwelwyd ef yn flaenor llawn :
O am gael yr anian santaidd
Oedd mewn meddiant ganddo ef,
Fel y gallom ninnau gyrhaedd
Yn y diwedd deyrnas nef.

5 Lle diweddaf bu'n pregethu
Oedd yn Nghapel Pen-y-dre',—
Yn wir danbaid y llefarai,—
Synai pawb o fewn i'r lle :
Wrth fyn'd adref y dywedid
Gan y rhai a'i clywsant ef,
" O mor wrol oedd John Thomas
" Yn traddodi geiriau'r nef ;

6 " Mae ein gobaith y caiff aros
" Etto gyda ni yn hir,
" Am ei fod yn un o'r goreu
" O'n pregethwyr yn y Sîr :
" Tirion dad, cynghorwr ffyddlon
" Am flynyddau fu i ni,—
" O na allem fod yn ddynion
" Tebyg i'n hen Batriarch cu."

7 Ond 'mhen 'chydig iawn o ddyddiau,
Yn ddirybydd daeth i'n clyw,
Fod ei enaid wedi hedeg
Ffwrdd ar aden at ei Dduw :
Ac yn monwent Aberteifi
Rho'w'd ei babell bridd i lawr ;
Yno gorwedd heb ddihuno,
Hyd nes cano'r udgorn mawr.

8 Fe'i hebryngwyd yno'n barchus,
Gan drigolion gwlad a thre' ;
Llu yn drist wrth fedwl claddu
Gwr defnyddiol fel efe :
Ond mi dd'wedaf, heb betruso,
I ni roi ei gorff i lawr,
Mewn gwir obaith cael ei weled
Etto gyda'r Arglwydd mawr.

9 D'wedai pawb yn ol ei gladdu,
  Obry yn y ddaear ddu,
" O na fuasem ni mòr barod
  " I fyn'd yna ag oe't ti :
" Colled gawsom oll i golli'th
  " Gwmni hygar 'nawr o'n plith ;
" Ond mae genyt well cymdeithion
  " Yn y wlad lle byddi byth."

10 Ceredigion, beth yw'r meddwl
  Dwys sydd genych chwi yn awr,
Wrth wel'd milwyr dewr yn syrthio
  Yn eich byddin fach i lawr :
Cwympodd, cwympodd Eben Morris
  O Dwrgwyn, y cadarn gawr!
Wedi hyny Jenkin Davies,
  Yn ei ymyl, aeth i lawr!

11 Ac hyd heddyw y mae'r rhyfel
  Yn parhau mewn poethder mawr,
Nes mae llawer milwr dewrwych,
  Yn y gâd yn syrthio lawr :
A'r diweddaf oll o honynt,—
  Un na fu ei well erioed,
Gwympwyd gan deyrn angeu creulawn,—
  'Nawr y mae o dan ei droed!

12 Dewin doeth, a gwrol hefyd,
  Fu John Thomas yn ei oes,
E bregethai mewn modd eglur
  Am haeddiannau Dwyfol loes ;
A dangosai gariad Duwdod
  At bechadur euog, trist,
Trwy rinweddau aberth perffaith
  Ei anwyl-Fab, Iesu Grist.

13 Ei dda amcan oedd yn oestad,
  Pan yn cwrdd â'r ddynol hîl,
Oedd i achub eu heneidiau,
  Ac i'w troi i'r llwybr cul:
Meddai ar y fath deimladau
  At ei gyd-bechadur gwan,
Fel y gwnelai 'rhyn a allai
  Er ei gynal ef i'r lan.

14 Ni adawai unrhyw bechod
  Heb ei nodi'n hyf i ma's,
Fe'i dangosai yn ddiofn
  Yn ei liwiau duon, cås:
Ni wenieithai i'w wrandawyr,
  Byddent hwy yn wych neu wael,
E ddywedai, "Os na chredwch,
  Yn druenus rhaid eich cael."

15 Fel pregethwr, yn ddiamau,
  Yr oedd ef yn drefnus iawn,
Yr oedd ganddo ef bregethau
  A ddynodent feddwl llawn:
E ddangosai ei holl bethau
  Fel gwych berlau gwell nag aur,
Fel nas gall'sai'r llygad craffa
  Ganfod sothach mewn un gair!

16 Pan y byddai ar ei deithiau,
  Yn cyhoeddi 'fengyl gras,
Fe'i ystyrid fel tywysog
  Oddiwrth Dduw yn d'od i ma's:
Dysgedigion a ymdyrent
  Yn dra phrysur tua'r lle
Byddai Thomas, Aberteifi,
  Yn pregethu geiriau'r ne':

17 A chaent glywed pethau ganddo
  Pan y byddai'n myn'd yn mla'n,—
Pethau buddiol, pethau pwysig,
  Pethau da a ddalient dân:
Nid oedd ganddo lais taranllyd,
  Ond e dd'wedai yn dra rhwydd,—
A'i ymadrodd wrth bregethu,
  Oedd wirionedd yn eu gŵydd.

18 Braidd y gallaf fyn'd i unman
  Nad wy'n clywed galar trist,
Pan y sonir am farwolaeth
  Y gwas enwog hwn i Grist:
Mae Pregethwyr a Blaenoriaid
  Yn och'neidio dan eu clwy',
Ac yn llefain am gael deu-parth
  O'i ddoeth ysbryd iddynt hwy.

19 Esgusodwch mod i'n crwydro
Yma thraw wrth hyn o waith,
Nid peth hawdd yw d'wedyd gormodd
Am ei holl rinweddau maith:
'Rwy'n appelio at y miloedd
Ga'dd y fraint o'i glywed ef,
Onid oedd yn wr rhagorol?
Hyny'n ddiau yw eu llef.

20 Nid wyf fi yn awr yn cofio
Clywed undyn, fu neu sy',
Yn anturio dweyd am dano
Unrhyw air ag nad oedd gu:
Yn yr Eglwys bu'n arosol,
Am flynyddau hynod faith,
Clywir hwy bob pryd yn canmol
Ei rinweddol, dduwiol daith.

21 Yn y lle y bu'n preswylio
Am ei oes, tra yn y byd,
Nid oedd duwiol nac annuwiol
Heb ei barchu ef i gyd:
Y rhai olaf pan ei cwrddent
Ar yr heol mewn rhyw le,
A edrychent sut ymddygent,
Pan yn agos atto fe.

22 Mi ddychmygaf clywaf ofyn
Gan ryw un wrth ddarllen hyn,
Pa fodd ca'dd y fath ddylanwad
Ar bob dyn; ond ydyw'n syn?
A oedd ganddo ef hardd gerbyd
Idd ei gario i bob lle?
Ac os felly, pa ryfeddod
Gwel'd ei barch gan wlad a thre'?

23 Anwyl gyfaill, aros, gwrandaw,
A chei wybod gwir yn awr,
Ni bu yn ei feddiant gerbyd
Tra bu yma ar y llawr:
A thebygwyf gallaf atteb
Dy ofyniad yn ddifraw,—
Ei dduwioldeb oedd yr achos
O'i holl barch ef yma thraw.

24 O! John Thomas,—gwynfydedig
Oeddit yma gyda ni,
Ond mwy felly ydwyt heddyw
Yn y nefoedd ddysclaer, fry:
Ti ge'st yma lawer cyfaill
I dy garu'n anwyl iawn;
Ond yn awr yr wyt yn nofio
Yn y môr o gariad llawn!

25 Os ce'st fath dderchafiad yma
Gan bawb dynion, fawr a mân,
Pan oedd llygredd yn dy galon,
Ac nad oeddit hanner glân,
Beth a gei di dderbyn yna,
Lle nad oes neb yn byw ond Saint;
Pawb yn canu, pawb yn canmol
Gwaed yr Oen mewn uchel fraint.

26 Braidd na dd'wedaf it' gael eistedd
Ar orsedd-fainc uchel iawn;
Man i syllu mewn rhyfeddod
Ar y Prynwr mawr ei ddawn:
Yr wyt 'nawr yn mysg angylion,
Telynorion heirdd y nef,
Ac yn mhlith y Seintiau gwynion,—
Oll yn canu "Iddo Ef."

27 D'wed a welaist yn ngwlad Gwynfa
Rai o ddewrion Cymru fach?
A yw 'rhai fu'n afiach yma,
Yna oll yn gwbl iach?
D'wed a welaist rai o'r gorlan
Ag oedd genyt ar y llawr,
'Rhai fu dan dy gyfarwyddyd,
Pan yn ngwlad y cystudd mawr?

28 D'wed a welaist rai o'th frodyr
A 'madawsant o dy fla'n?
D'wed a welaist Charles o'r Bala,
Yna'n dechreu ar ei gân?
Hefyd, Charles o Dref Caerfyrddin,
A fu'n enwog ar y llawr?
Y mae yna, mi feddyliaf,
Ddigon idd ei feddwl mawr.

29 Yn mha fàn y mae yr enwog
Rowlands o Langeitho, wy's ?
A oes ganddo yna delyn
Sydd yn swnio trwy'r holl lys ?
E fu ef yn ffyddlon yma
Yn ymboeni yn y gair;
'Nawr mae'n gwel'd yn ddigon amlwg,
'Rhwn fu gynt ar luniau Mair.

30 D'wed a welaist ar uchel-fainc
John Elias, gynt o Fôn;
Ebenezer Richards hefyd ?
Am y rhai'n yn hir bydd son:
David Griffiths, gynt o Lantwd,
A D. Evans, Ffos-y-ffin;
Rhai oedd i ni yn dra anwyl,
Fel yr oeddit ti dy hun ?

31 Hefyd, Christmas Evans enwog,
'Rhwn a aeth o'r byd i fyw;
Daniel Evans, Cappel Drindod,
'Nawr s'yn gwledda gyda'u Duw:
Hoff John Evans o Llwynffortyn,—
Williams ddawnus o'r Wern gynt,
A John Jones, Treffynon hefyd,
Fuant yma ar eu hynt.

32 Mi ro'f heibio 'nawr i holi
Gofyniadau o'r fath hyn,—
Cawsant oll adnabod Iesu
Yn gwmpeini yn y glŷn:
Y maent heddyw yna'n fintai,
A myrddiynau gyda hwy,
Yn moliannu uwch angylion
Am rinweddau marwol glwy'.

Isaac Thomas, Argraffydd, Heol-Fair, Aberteifi.